

Ein Blwyddyn dan glo



Museum of
Cardiff

Amgueddfa
Caerdydd

Er bod drysau'r Amgueddfa ar gau eleni, rydym wedi bod yn brysurach nag erioed, gan greu cynnwys a gweithgareddau newydd i gefnogi ein hymwelwyr, ein partneriaid a'n cyfranogwyr.

Dyma ddetholiad bach o'r hyn rydym wedi bod yn gwneud...



Arddangosfeydd

Nid oeddwn yn gallu cynnal ein rhaglen arferol o arddangosfeydd yn yr Amgueddfa, felly fe wnaethon ni greu adran newydd ar ein gwefan ar gyfer arddangosfeydd ar-lein!

Gallwch ddod o hyd i dri ar-lein hyd yn hyn:

Sain Caerdydd, gan edrych ar sut mae cerddoriaeth a sain yn bwysig i'n cymunedau:

<https://cardiffmuseum.com/cy/sain-caerdydd/>

Diwrnodau Buddugoliaeth, am sut y dathlodd Caerdydd Ddiwrnod VE:

<https://cardiffmuseum.com/cy/arddangosfeydd-ar-lein/>

Caerdydd dan Glo, ein prosiect ffotograffiaeth i ddangos sut mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar Gaerdydd:

<https://cardiffmuseum.com/cy/caerdydd-dan-glo/>



Casgliadau




Rydym wedi bod yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i gael mwy o'n casgliad ar-lein a byddwn yn lansio gwefan casgliadau newydd sbon ar ein pen-blwydd yn 10 oed (sef 1^{af} Ebrill 2021)!

Diolch i grantiau yn ystod y cyfyngiadau dan glo gan Lywodraeth Cymru, y Gronfa Gelf a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru, rydym wedi gallu tynnu lluniau o fwy o'r casgliad ac ychwanegu mwy o straeon at y gwrthrychau sy'n barod i'w lansio.

Mae'r wefan yn cynnwys gwrthrychau yn ein casgliad na allwn eu harddangos yn ein horielau, a byddwn yn tynnu sylw'n arbennig at ein casgliadau sy'n ymwneud â chymunedau amrywiol Caerdydd.

Casglu o ran Covid




Rydym wedi gwneud llawer i sicrhau y bydd y pandemig yn cael ei gynrychioli yng nghasgliad yr amgueddfa ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Lansiwyd *Caerdydd dan Glo*, sef prosiect ffotograffiaeth, yn gofyn i'r cyhoedd gyflwyno eu lluniau o sut roedd eu bywydau wedi newid yn ystod y pandemig, ac wedi gweithio gyda thîm Addewid Caerdydd y Cyngor ar eu Prosiect *Dyddiaduron y Diff*. Roedd y prosiect hwn yn annog plant a phobl ifanc i uwchlwytho ffilmiau, darluniau, eu gwaith ysgrifennu a'u ffotograffau o'u profiadau o'r cyfyngiadau dan glo.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda busnesau ac unigolion Caerdydd i annog rhoddion o wrthrychau ac atgofion/straeon i'r casgliad. Mae hyn oll yn golygu y bydd gennym storfa o wybodaeth a gwrthrychau er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gwybod beth ddigwyddodd yng Nghaerdydd yn ystod y cyfnod digynsail hwn yn ein hanes.

Allgymorth

Rydym hefyd wedi sicrhau ein bod wedi parhau i gefnogi ein partneriaid cymunedol yn ystod y flwyddyn ac wedi rhedeg ein rhaglenni SIY a dementia-gyfeillgar ar-lein!



Rydym wedi gweithio gyda thîm byw'n annibynnol Cyngor Caerdydd i helpu cyfranogwyr i gael mynediad i'r sesiynau'n rhithwir.

Rydym hefyd wedi cefnogi ein sefydliadau partner Oasis Caerdydd, Pobl yn Gyntaf Caerdydd a SightLife gan gynnal sesiynau ar-lein i'w cleientiaid a'u cyfranogwyr, ac mae aelodau Mencap Cymru, ein gwirfoddolwyr a Phobl yn Gyntaf Caerdydd wedi cymryd drosodd ein cyfryngau cymdeithasol fel gwesteion.



Fe wnaethon ni weithio gyda FareShare i ddosbarthu dros 100 pecyn gweithgaredd i deuluoedd, trwy rai o fanciau bwyd y ddinas

Roger's object story



Roger explains how a fuel block on display at the museum brings back memories of his Grandad, who worked as a coalman:

"Born in Grangetown in 1943, in my (coalman) Grandad's house, which had a yard and stable, I remember a stock of blocks for when his usual coal didn't arrive, post Second World War.

Customers would buy one or two blocks and Grandad had six small, iron wheeled, wooden trucks, which they could borrow. He would charge 2d (pence) deposit, repaid on the truck's return, usually by children.

The fuel block brings back memories of my Grandad, the house, yard, stable and 'Dolly' the horse."

Adnoddau dysgu

Nid ydym wedi gallu croesawu ein grwpiau ysgol arferol i'r Amgueddfa, ond crëwyd llawer o adnoddau a gweithgareddau newydd y gellir eu lawrlwytho ar gyfer teuluoedd ac ar gyfer addysg gartref!



Mae gan adran newydd ar ein gwefan feysydd pwrpasol ar gyfer plant mewn ysgolion cyfnod Sylfaen, cynradd ac uwchradd a buom yn gweithio gyda'n partneriaid cymunedol a chymdeithasau tai i argraffu'r adnoddau a'u hanfon at deuluoedd heb fynediad digidol.

Rydym wedi ymgynghori llawer ag athrawon ac wedi treialu ymweliadau ysgol 'rhithwir' newydd a chyfres gyfan o adnoddau dysgu newydd ar gyfer ysgolion, gan gynnwys rhai o amgylch hanes Pobl Dduon Caerdydd, gan ehangu ein hadnoddau yn archwilio hanes cymunedol amrywiol Caerdydd.

Cydnabyddiaeth

Roedd ein gwaith ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Amgueddfa Sy'n Ystyriol o Blant mewn Amgueddfeydd yn y categori 'gweithgaredd gwefan gorau' ar gyfer ein gweithgareddau 'Fy Amgueddfa'.

Roedd y panel llunio rhestr fer yn arbennig o falch o'n gwaith ar gyfer pobl ifanc nad oeddent yn cael eu gwasanaethu'n dda mewn mannau eraill. Canmolodd y panel hefyd ein "cyflwyniad clir" a'r ffordd y mae'r ystod o bynciau'n "gysylltiedig yn ôl â ffocws hanes cymdeithasol yr amgueddfa."



Local museums improving well-being

Inequalities can impact the how different groups access and interact with culture differently and many still feel excluded from spaces which are inaccessible or considered as 'high culture'. That is why the work of local museums, who work directly with the community is so important for the achievement of the vision set out in the Well-being of Future Generations Act. Small and large museums across Wales are taking actions to improve the social, economic, environmental and cultural well-being of their area. They are using the medium of culture to contribute to each of the national well-being goals to the well-being objectives of their local authority.

Gwnaethom hefyd ymddangos yn nogfen astudiaeth achos newydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am y gwaith y mae amgueddfeydd yn gwneud i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

<https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/02/Amgueddfeydd-Lleol.pdf>

Diolch

Mae llawer o'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl diolch i'n cefnogwyr! Rydym yn arbennig o awyddus i ddiolch i'r sefydliadau hynny sydd wedi ein cefnogi drwy grantiau a chyllid eleni:

Cronfa Gwasanaeth Diwylliannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol (£122,735); Cronfa Gelf/Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru (£1,000); Cronfa Cydnerthedd Diwylliannol Llywodraeth Cymru (£5,932); Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru (£7,000); Rhaglen Fusion Llywodraeth Cymru (£25,000) a Chronfa Trawsnewid Cyfalaf Llywodraeth Cymru (£120,000)



Cefnogwch ein gwaith

Os hoffech ein helpu i barhau â'n gwaith gyda'n cymunedau a sicrhau bod stori Caerdydd yn parhau i gael ei hadrodd, ystyriwch roi i'n hapêl codi arian.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cyd-fynd â phob £ a godwn, felly mae eich rhodd yn werth dwbl i ni!

<https://cardiffmuseum.com/cy/cyfrannwch/>